



YSGOL DYFFRYN CONWY

PROSBECTWS PROSPECTUS

www.ysgoldyffrynconwy.org

   @ysgdyffrynconwy

\\

Ein nod yw sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd eu potensial trwy gynnig ystod eang o gyfleoedd gyda chymorth cwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol a heriol.

Our aim is to ensure that all pupils reach their potential through a wide range of opportunities with the aid of a broad, balanced, relevant and challenging curriculum.

//

Cynnwys Contents



Croeso / Welcome	2
Polisi Mynediad yr Ysgol ac oriau ysgol / Admissions Policy and school times	5
Cwricwlwm yr ysgol / School Curriculum	6
Profiadau Ehangach / Enhanced Experiences	9
Llais Disgyblion / Pupil Voice	11
Darpariaeth Chwaraeon a Datblygu Talent / Sports Provision and Developing Talent	12
Polisi Iaith a Manteision Dwyieithrwydd / Language Policy and Benefits of Bilingualism	13
Polisiau Cwricwlaidd / Curriculum Policies	14
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb / Relationship & Sexuality Education	
- Addysg Grefyddol / Religious Education	
- Sgiliau Trawsgwricwlaidd / Cross-curricular skills	
- Addysg Gyrfaoedd a Byd Gwaith / Careers Education and the World of Work	
Llwyddiant Academaidd / Academic Success	17
Cefnogaeth Bugeiliol – Gofal a Lles / Pastoral Care – Wellbeing	18
Polisi Cydraddoldeb a Polisi ADY / Equalities and ALN Policies	19
Polisi gwrth-fwllo a polisi disgyblaeth / Anti-bullying and behaviour policy	20
Trefniadau Amser Cinio / Lunch Time Arrangements	21
Disgwyliadau / Expectations	22
Cytundeb Ysgol-Cartref / Home School Policy	23
Cyfleusterau ac adnoddau / Facilities and Resources	25
Gwisg Ysgol / School Uniform	26
Presenoldeb a Prydlondeb / Attendance and Punctuality	28
Polisiau Eraill / Other Policies:	30
- Polisi E-ddiogelwch (crynodeb) / E-safety Policy (summary)	
- Polisi Talu / Charging Policy	
- Polisi Iechyd a Diogelwch (crynodeb) / Health and Safety Policy (summary)	
Cysylltu â'r Ysgol a Polisi Cwyno / Contacting the school and Complaints Policy	32
Staff yr Ysgol Medi 2026 / School Staff September 2026	33
Llywodraethwyr yr Ysgol 2026/27 / School Governing Body 2026/27	35

Croeso

Gair gan y Pennaeth



Mr Owain Gethin Davies
Pennaeth Headteacher

Pleser yw cyflwyno i'ch sylw Prosbectws Ysgol Dyffryn Conwy.

Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn ysgol gyfun gymunedol gydag oddeutu 600 o ddisgyblion o 11 - 18 oed ac mae hyn yn cynnwys oddeutu tua 80 o ddisgyblion 6ed dosbarth. Yr ydym yn cychwyn ar bennod cyffrous wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd ac wrth symud yn naturiol i gategori 3 sef Ysgol cyfrwng Cymraeg. Credwn fod darparu profiadau ac addysg cyfrwng Cymraeg o ansawdd i ddisgyblion yn eu paratoi i fod yn ddinasyddion dwy ieithog medrus ar gyfer ein cymuned ein hunain a thu hwnt. Mae'r ysgol yn un sy'n gwasanaethu anghenion ieithyddol a diwylliannol gwahanol ddisgyblion y dalgylch boed yn drefol neu o ardaloedd cefn gwlad, gan roi gogwydd Cymreig a Chymraeg i'n disgyblion a datblygu eu sgiliau a phrofiadau yn y ddwy iaith.

Lleolir yr ysgol ar safle braf iawn yn Nyffryn Conwy, safle sydd yn cyfoethogi'r dysgu. Gwasanaethir yr ysgol ddisgyblion tref Llanrwst a'r holl ddyffryn. Rydym yn falch iawn o'r bartneriaeth glos sydd gennym â'n 13 ysgol gynradd dalgylch sydd yn sicrhau trosglwyddo hapus i'n disgyblion i ysgol glos a chartrefol. Cynigwn i bob disgybl, beth bynnag eu gallu a chefnidir, ymdeimlad o werth a hunan hyder. Ein nod yw bod yn ysgol gartrefol, gymunedol a chynhwysol lle gallwn weithio gyda phob disgybl i'w cynorthwyo i gyrraedd eu potensial. Credwn mewn llwyddiant i bawb, gan geisio rhoi pob cymorth i'n disgyblion lwyddo o fewn y cwricwlwm a drwy ystod o weithgareddau allgyrsiol amrywiol.

Anelwn at ddarparu'r addysg orau posib i ddatblygu dysgwyr hyderus dwyieithog a dysgwyr annibynnol gyda'r sgiliau angenrheidiol i'r dyfodol. Er mwyn sicrhau hyn, cynigwn gwricwlwm addas, eang a heriol i bob disgybl. Rydym yn hynod falch o lwyddiannau ein disgyblion yn academiaidd, ym maes chwaraeon, yn y celfyddydau ac ym myd gwaith ac astudiaeth bellach wedi gadael yr ysgol. Hyderwn ein bod yn darparu'r profiadau dysgu a chyfoethogi dysgu y gallent ymfalchïo ynddynt.

Edrychwn ymlaen yn fawr iawn i'ch croesawu chi fel darpar ddisgybl a rhieni/gofalwyr i'r ysgol. Hyderwn fod gwybodaeth werthfawr yn y prosbectws hwn i'ch cynorthwyo yn y penderfyniad pwysig o symud ysgol, boed hynny ar ddiwedd blwyddyn 6, disgybl yn trosglwyddo i'r ardal neu fel darpar ddisgybl i'r 6ed dosbarth. Anogwn i chi ymweld â ni i brofi'r cyfeillgarwch a'r hapusrwydd sy'n perthyn i Ysgol Dyffryn Conwy, ynghyd a'n safle unigryw. Byddwn yn cynnal noson agored i rieni a disgyblion blwyddyn 5 a 6 ym mis Hydref ac i ddarpar ddisgyblion 6ed Dosbarth ym mis Ionawr. Ceir mwy o fanylion ar ein safwe.

Petai gennych unrhyw ymholiad pellach, neu os ydych yn dymuno ymweld â'r ysgol, peidiwch ag oedi rhag cysylltu yn uniongyrchol.

Mr Owain Gethin Davies Pennaeth

Welcome

A word from the Head Teacher

It is a pleasure to present to you Ysgol Dyffryn Conwy's Prospectus.

Ysgol Dyffryn Conwy is a community comprehensive school with approximately 600 pupils aged 11 - 18 and this includes around 80 6th form pupils. We are starting an exciting chapter by introducing the new curriculum and moving naturally to category 3 which is a Welsh-medium school. We believe that providing quality Welsh-medium education and experiences to pupils prepares them to be skilled bilingual citizens for our own community and beyond. The school is one that serves the linguistic and cultural needs of the different pupils in the catchment area, whether urban or from rural areas, giving our pupils a Welsh and Welsh orientation and developing their skills and experiences in both languages.


The school is situated on a picturesque site in the Conwy Valley, a site that enhances learning. The school provides secondary education for pupils from Llanrwst and the whole of the Conwy Valley. We are proud of our close partnership with our 13 primary feeder schools which helps to secure a happy and smooth transition to secondary school. We hope to provide each pupil, whatever their ability and background, a feeling of self worth and confidence. Our aim is to be a close, welcoming and inclusive community school, working with each pupil to help them achieve their potential. We believe in success for all, aiming to support each pupil to succeed within the curriculum and through a range of varied extracurricular activities.


We aim to provide the best possible education to develop confident bilingual learners who have the independence and skills to succeed in the future. In order to achieve this, we offer a broad, appropriate and challenging curriculum. We are extremely proud of the successes of our pupils, academically, in areas of sports and creative arts, and in the world of work and academic study. We are confident that we provide the learning and enrichment experiences that pupils can reflect proudly on.

We look forward to welcoming you as prospective pupils and parents/carers to the school. We hope that this prospectus, supported by our website, gives you the information you need to make your decision about attending Ysgol Dyffryn Conwy – as a year 6 transition pupil, as a pupil moving to the local area, or as a prospective 6th former. We encourage you to visit the school to experience our welcoming atmosphere. Open evenings for year 5 and 6 and for the 6th form are held in October and January respectively. Further information on our website.

If you have any further questions or wish to visit the school, please don't hesitate in contacting us directly.

Mr Owain Gethin Davies Headteacher





Polisi mynediad yr ysgol

Mae nifer o ysgolion cynradd yn bwydo Ysgol Dyffryn Conwy gan gynnwys disgyblion o'n 13 ysgol gynradd partner. Mae'r polisi ysgol ar dderbyn disgyblion yn cydymffurfio â pholisi'r Awdurdod Addysg. Mae disgwyl i rieni rhoi gwybod i'r Awdurdod Addysg o'u dewis o ysgol Uwchradd. Mae 128 o lefydd ar gael i ddisgyblion ym mhob blwyddyn. Bydd 600 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar y 1af o Fedi 2026 gan gynnwys oddeutu 80 yn y 6ed dosbarth. Mae croeso i rieni gysylltu am ragor o wybodaeth.

School Admission Policy

Numerous local primary schools feed Ysgol Dyffryn Conwy, including our 13 cluster partner schools. The school's admissions policy complies with the Local Authority's policy. Parents are expected to inform the Local Authority of their choice of secondary school. We have 128 places in each academic year. The school will have 600 pupils on roll on the 1st of September 2026 including around 80 pupils in the Sixth Form. Parents are welcome to contact the Head if they would like any further information.

Pa bryd fydd fy mhlentyn yn cael cyfle i ddod i weld yr ysgol?

Mae'r ysgol yn cynnal ystod o weithgareddau cyfoethogi dysgu mewn partneriaeth â'n ysgolion cynradd lleol yn ystod y flwyddyn. Yn ychwanegol cynhelir diwrnodau ymweld ffurfiol i ddisgyblion blwyddyn 6 y cyntaf yn ystod yr Hydref yn flynyddol gyda diwrnodau ymweld pellach ar ddechrau Gorffennaf. Bwriad y diwrnodau hyn yw i roi cyfleoedd i'r disgyblion ddod i nabod disgyblion eraill, staff yr ysgol a dechrau dod yn gyfarwydd a safle'r ysgol. Rydym hefyd yn cynnal Noson Agored i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 a'u rhieni yn ystod mis Medi a noson Agored 6ed dosbarth yn ystod mis Ionawr. Mae croeso hefyd i unrhyw ddarpar-rieni a disgyblion gysylltu yn uniongyrchol i drefnu ymweliad.

When will my child have an opportunity to visit the school?

A range of enrichment activities in partnership with our primary schools are conducted over the course of the year. In addition specific days are arranged for year 6 pupils, the first early in the Autumn Term' with further taster days during July. The aim of these days is to give pupils the opportunity to become familiar with the school site, to get to know other pupils and staff. We also hold an Open Evening for year 5 and 6 pupils and their parents in September and a 6th Form Open Evening in January. Prospective pupils and parents can also contact the school directly to arrange a visit.

Beth yw oriau'r ysgol?

Rhennir y diwrnod yn 6 gwrs 50 munud fel a ganlyn
08:55 - 09:15 Cofrestru, Gwasanaeth a Thiworial
09:15 - 10:05 Gwrs 1
10:05 - 10:55 Gwrs 2
Egwyl ¼ awr
11:10 - 12:00 Gwrs 3
12:00 - 12:50 Gwrs 4
Cinio
1.35 – 2.25 Cofrestru pnawn a Gwrs 5
2:25 - 3:15 Gwrs 6

What are the school hours?

The school day is split into 6 50 minute lessons
08:55 - 09:15 Registration, assembly and tutorial
09:15 - 10:05 Lesson 1
10:05 - 10:55 Lesson 2
Break for 15 minutes
11:10 - 12:00 Lesson 3
12:00 - 12:50 Lesson 4
Lunch
1.35 – 2.55 Registration and Lesson 5
2:25 - 3:15 Lesson 6

Cwricwlwm

Polisi Cwricwlwm

Mae gan holl ddisgyblion Ysgol Dyffryn Conwy hawl i gael cwricwlwm eang a chytbwys sy'n:

"Hyrwyddo eu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol ac yn eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolion."

(Adran 351, Deddf Addysg 1996)



Fel ysgol rydym yn falch o fod yn cychwyn ar y cwricwlwm newydd, Cwricwlwm i Gymru. Fel ysgol, rydym wedi bod yn cynllunio a datblygu er mwyn cyflwyno cwricwlwm sydd yn unigryw i ddysgwyr yr ardal.

Rydym yn cydweithio yn agos â'n hysgolion cynradd i gynllunio profiadau pontio a phrofiadau dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn pontio yn llwyddiannus o'n 13 ysgol gynradd dalgylch. Mae'r cwricwlwm yn cael ei gyflwyno drwy 6 Maes Dysgu a Phrofiad Newydd:

- Iechyd a Lles
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Dyniaethau
- Celfyddydau Mynegiannol

Mae'r cwricwlwm hefyd yn ffocysu ar ddatblygu dinasyddion sydd yn gwredu'r 4 Diben canlynol i ddatblygu:

- Dysgwyr uchelgeisiol galluog ...
- Cyfranwyr mentrus a chreadigol ...
- Unigolion iach a hyderus ...
- Dinasyddion egwyddorol gwybodus ..

Curriculum

Curriculum Policy

All pupils at Ysgol Dyffryn Conwy are entitled to a broad and balanced curriculum which:

"Promotes their spiritual, moral, cultural, mental and physical development and prepares them for the opportunities, responsibilities and experiences of adult life."

(Section 351, Education Act 1996)



As a school we are proud to be starting the new curriculum, Curriculum for Wales. As a school, we have been planning and developing in order to present a curriculum that is unique to learners in the area.

We work closely with our primary schools to plan transition experiences and learning experiences in order to ensure that pupils transition successfully from our 13 primary schools in the catchment area. The curriculum is delivered through 6 New Learning and Experience Areas:

- Health and Wellbeing
- Languages, Literacy and Communication
- Mathematics and Numeracy
- Science and Technology
- Humanities
- Expressive Arts

The curriculum also focuses on developing citizens who demonstrate the following 4 Purposes they are :

- Ambitious and capable learners ...
- Enterprising and creative contributors...
- Healthy and confident individuals ...
- Ethical, informed citizens..

Cwricwlwm CA4 a CA5



Parhawn i gynnig y cyrsiau craidd statudol yn CA4 ynghyd a chyflwyno y Fagloriaeth Gymraeg, a cynnig hyd at 3 pwnc dewis. Yn CA4, ategir yr arlwy yn CA3 drwy gyrsiau newydd megis Busnes, Cymdeithaseg, Bwyd a Maeth, a Gofal Plant ynghyd a cyrsiau coleg mewn partneriaeth â rhwydwaith 14-16 Conwy a Coleg Glynllifon ar gyfer TGAU.

Ar gyfer cyrsiau Lefel A, cynnigir cyrsiau mewn partneriaeth drwy LINC Conwy hefyd.

Am fanylion pellach am ein cwricwlwm yn CA4 (TGAU) a CA5 (Lefel A) gweler ein llawlyfrynau ar y safwe:
www.ysgoldyffrynconwy.org.

We continue to offer the statutory core courses at KS4 as well as introduce the Welsh Baccalaureate, and offer up to 3 subjects choice. At KS4, the offer at KS3 is complemented by new courses such as Business, Sociology, Food and Nutrition, and Childcare along with college courses in partnership with Conwy's 14-16 network and Coleg Glynllifon for GCSE.

For A Level courses, partnership courses are also offered through LINC Conwy.

For further information about our curriculum at KS4 (GCSEs) and KS5 (A Level), see your handbooks on the website: www.ysgoldyffrynconwy.org.

Profiadau Ehangach

Heblaw'r gwersi beth arall sydd gan Ysgol Dyffryn Conwy i'w gynnig i'n plentyn?

Mae ein disgyblion yn elwa yn arw o weithgareddau sydd yn digwydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae gan yr ysgol enw da iawn am berfformiadau cyhoeddus, megis y cyflwyniadau cerddodrol – 'Peter Pan' (2014), 'Gris/Grease' (2016), 'Cae'r Melwr' (2018 a 2019), 'Ail Liwio'r Byd' (2020) a 'Y dyn nath ddwyn y Nadolig' (2022). Mae corau a phartion o'r ysgol yn gwneud yn dda mewn Eisteddfodau lleol a chenedlaethol, a'u perfformiadau yn y gymuned leol a thu hwnt werth eu gweld. Cynheir Eisteddfod ysgol bob yn ail flwyddyn sydd yn rhoi cyfle arbennig i ddisgyblion ddatblygu eu doniau – boed barddoni, actio neu llefaru, yn gerdd dant neu'n ddawnsio disgo. Mewn partneriaeth a'r gwasanaeth Cerdd sirol, mae llawer o'n disgyblion yn datblygu eu sgiliau cerddorol drwy chwarae offerynnau. Braf iawn yw cael eu mewnbwn yn ein cyngerddau a perfformiadau ysgol.

Mae gweithgareddau STEM amrywiol hefyd yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau a profiadau yn y maes. Yn flynyddol, mae disgyblion talentog ym maes mathemateg yn cystadlu mewn heriau mathemateg yn lleol ac yn genedlaethol ac yn llwyddiannus iawn. Bum hefyd, dros y tair mlynedd diwethaf yn ran o'r prosiect Ysgolion Creadigol mewn partneriaeth a Celfyddydau Cymru a'r Loteri. Bu'r prosiectau hyn yn gyfleoedd gwyb i ddatblygu dysgu mewn cyd-destunau gwahanol iawn i'n disgyblion. Cynheir diwrnodau sgiliau a gweithgareddau yn ystod y flwyddyn hefyd er mwyn cyfoethogi profiadau disgyblion drwy ymweliadau yn leol a drwy ymwelwyr a gweithgareddau ehangach o fewn yr ysgol.

Mae gennym hefyd nifer o glybiau yn weithgar yn yr ysgol ac mae llawer iawn o weithgareddau yn digwydd ar y safle yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol. Cynhelir y rhain mewn partneriaeth â'r ganolfan hamdden sydd ar safle yr ysgol. Mae timau ac unigolion o Ddyffryn Conwy wedi gwneud yn arbennig o dda mewn chwaraeon – ar raddfa lleol, sirol a chenedlaethol. Mae Rygbi, Peldroed, Pysgota, Marchogaeth ac amryw o chwaraeon awyr agored megis beicio mynydd a traws-gwlad hefyd wedi profi yn lwyddiant i'n disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf. Ymysg ein llwyddiannau yn ystod 2025/26 oedd llith o bencampwriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn enwedig ym maes rygbi bechgyn a merched. Gallwch ddarllen ein holl hanesion drwy ein cyfrifon Facebook, Instagram, @ysgdyffrynconwy a @PEDyffrynConwy; a'n safwe newyddion ar www.ysgoldyffrynconwy.org.

Enhanced Experiences

What else has Ysgol Dyffryn Conwy to offer my child?

Our pupils benefit from a range of activities outside of the classroom. The school has a very good reputation in the field of performing arts, including our productions over the last few years 'Peter Pan' (2014), 'Gris/Grease' (2016) 'Cae'r Melwr' (2018 and 2019), 'Ail Liwio'r Byd' (2020) and 'Y dyn nath ddwyn y Nadolig' (2022). Our choirs and singing groups perform well during local and national Eisteddfodau and their performances in the local community are well worth experiencing. A bi-annual School Eisteddfod is held, giving pupils the ideal opportunity to develop and demonstrate skills in creative writing, acting and recitation, 'cerdd dant' and disco dancing. In partnership with the Conwy Music Service, our learners also have the opportunity to continue to learn to play a musical instrument/take up a new musical instrument.

Varied STEM activities also take place over the course of the year to develop learners' skills and experiences in the field. Each year, talented youngsters take part in local and national maths challenges, proving successful each time. We have also, over the last three years been a Lead Creative School, working with the Welsh Arts Council and the Lottery to develop rich learning contexts for developing creative arts' skills in different contexts – a very different way of learning for our young people. We run skills and activities days across the year in order to enrich pupils' learnings through visits locally and through engaging workshops and presentations from local and national organisations.

We have a number of active clubs at the school with a range of activities taking place during lunch time and after school. These are run in partnership with the local leisure centre which is on site. Individuals and teams from Ysgol Dyffryn Conwy continue to do extremely well in regional and national competitions. Our Rugby, football, fishing, equestrian teams along with a range of outdoor sports such as mountain biking, cross-country and kyaking continue to perform well in competitive situations. Amongst our successes in 2025/26 were a collection of trophies from local, regional and national competitions, particularly from our girls' and boys' rugby teams. You can read more of our successes through out Facebook, Instagram feed and school website: @ysgdyffrynconwy / @PEDyffrynConwy; and www.ysgoldyffrynconwy.org.



Llais Disgyblion

Mae llais a barn disgyblion yn bwysig iawn i ni fel ysgol. Rydym yn ymfalchio yn y nifer o ddisgyblion sydd yn arwain gweithgareddau, yn ymwneud a fforymau llais disgyblion o'r fforymau dosbarth, blwyddyn, Cyngor yr Ysgol, Cyngor Chwaraeon ac Arweinwyr Digidol. Cynrychiolir llais y disgyblion o fewn y Corff Llywodraethol drwy 2 ddisgybl etholedig yn flynyddol. Mynychir cyfarfodydd misol Sodexo yn aml gan ddisgybl gynrychiolwyr.

Pupil Voice

Pupil voice and opinions are very important to us as a school. We are intensely proud of the many pupils who lead activities and who participate in different forums from class and year forums, to the School Council, Sports Council and Digital Leaders. Pupils' views are represented through two elected members of the governing body annually and pupils regularly attend monthly meetings with Sodexo.



Beth ydy darpariaeth yr ysgol ar gyfer chwaraeon?

Mae'r ysgol yn chwarae gemau yn erbyn sefydliadau addysgol eraill mewn pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, hoci, golff, athletau, criced,awns, nofio ac mae rhai unigolion yn cynrychioli'r ysgol mewn gweithgareddau eraill. Gwelir manylion llawn ar Safwe yr ysgol www.ysgodyffrynconwy.org a cyfrif Trydar yr Adran Addysg Gorfforol @PEDyffrynConwy. Mae teithiau rygbi a sgïo dramor yn cael eu trefnu'n rheolaidd ac mae'r ysgol yn cydweithio yn agos â chlybiau chwaraeon lleol, canolfannau awyr agored a defnyddir adnoddau'r Ganolfan Hamdden yn ddyddiol. Manteisir ar brosiectau megis 'Cyswllt Chwaraeon Ysgol Cymuned' ac anogir cymaint â phosibl o blant o'r sector cynradd i ymuno â'r disgyblion uwchradd mewn gweithgareddau hyfforddi ar ôl oriau ysgol. Mae'r Adran Addysg Gorfforol, mewn partneriaeth a'n Llysgenhaden Ifanc yn trefnu gweithgareddau allgyrsiol amser cinio ac ar ôl ysgol. Ymgynghorir â'r disgyblion drwy'r Cyngor Chwaraeon a'r Llysgenhaden Ifanc sydd yn aml yn rhedeg nifer o'r gweithgareddau hyn.

What is the school's provision for sport?

The school competes against other educational establishments in football, rugby, netball, hockey, golf, athletics, cricket, dance and swimming and individuals have represented the school in other areas. For further information see our webpage www.ysgodyffrynconwy.org and our Physical Education Department Twitter feed @PEDyffrynConwy. Rugby and skiing trips abroad are arranged regularly and the school works closely with local sports clubs and outdoor pursuits centres. The school has full access to the resources in the Leisure Centre. The school takes advantage of projects such as school community sports and we encourage as many children as possible from the primary sector to join our pupils in training sessions after school. The Physical Education Department, along with our Young Ambassadors organise activities for lunch time and after school. The activities are arranged through consultation with our pupils particularly our Sports Council and Young Ambassadors, many of whom run a number of these activities.



Mae gan fy mhlentyn dalent arbennig

Mae'r ysgol yn ymfalchio mewn dathlu talentau ein disgyblion fel y gwelwch o'n tudalenau newyddion ar y safwe a'n cyfrifon Trydar. Mae cefnogi a datblygu talentau a gallu ein disgyblion yn allweddol bwysig i ni. Bydd yr ysgol yn gwneud popeth bosibl i roi'r cyfle i'n disgyblion feithrin a datblygu eu talentau – boed y rheini yn y maes academiaidd neu mewn maes arall megis y celfyddydau neu chwaraeon. Os ydych am drafod hyn ymhellach yna mae croseo i chi gysylltu â'r ysgol.

My child has a special talent

The school is proud to celebrate the talents of our pupils as you will see from our new pages on our website and our Twitter accounts. Supporting and developing our pupils' talents and ability is important to us. The school will do everything possible to give our pupils the opportunity to develop their special talent – be it an academic talent or a talent in a different area such as sport or the performing arts. If you would like to discuss this matter further, please contact the school.

Polisi Iaith a Manteision Dwyieithrwydd

Mae Ysgol Dyffryn Conwy o fis Medi 2023 wedi ei dynodi fel ysgol Categori 3 sef Ysgol Cyfrwng Cymraeg ac yn cynnig ystod eang o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd dysgwyr sydd yn dod i'r Ysgol ym Mlwyddyn 7 yn 2026 yn derbyn o leiaf 70% o'u gweithgareddau Ysgol (cwricwlaid ac allgyrsiol) yn Gymraeg.

Nod yr ysgol yw datblygu'r disgyblion i fod yn hyderus ddwyieithog, er mwyn eu galluoigi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Rhoddir pwyslais ar sicrhau dilyniant o'r cynradd i'r uwchradd o ran cyfrwng y dysgu. Bydd pob dysgwr yn dilyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth drosglwyddo i flwyddyn 7. Bydd dysgwyr sydd angen cefnogaeth iethyddol (hwyrddyfodiad) yn derbyn darpariaeth trochi yn ystod blwyddyn 6 yn yr Ysgol Gynradd ac yn ystod blwyddyn 7 ac 8 yn Ysgol Dyffryn Conwy.

Language Policy and Benefits of Bilingualism

Ysgol Dyffryn Conwy from September 2023 will be a designated Category 3 school which is a Welsh Medium School and offers a wide range of Learning and Experience Areas through the medium of Welsh. Learners who come to the School in Year 7 in 2026 will receive at least 70% of their School activities (curricular and extra-curricular) in Welsh.

The aim of the school is to develop the pupils to be confidently bilingual, in order to enable them to be complete members of the bilingual society of which they are a part. Emphasis is placed on ensuring progression from primary to secondary in terms of the medium of learning. All learners will follow Welsh-medium provision when transferring to year 7. Learners who need linguistic support (late arrivals) will receive immersion provision during year 6 in the primary school and during years 7 and 8 at Ysgol Dyffryn Conwy.

Beth yw Manteision Dwyieithrwydd?

Mae ymchwil yn dangos bod dwyieithrwydd yn cyfrannu at y canlynol:

1. Llwyddiant Academiaidd
2. Magu hyder a balchder
3. Dablygu meddwl creadigol a hyblyg
4. Cryfhau galluoedd gwybyddol
5. Datblygu goddefgarwch tuag at ddiwylliannau eraill
6. Creu meddwl effro ac agwedd agored
7. Profi bywyd cymunedol cyfoethog
8. Agor drysau ac ehangu gorwelion – manteision cyflogaeth

What are the Benefits of Bilingualism?

Research shows that bilingualism contributes to:

1. Academic Success
2. Nurturing confidence and pride
3. Developing flexible and creative thinking
4. Strengthening cognitive ability
5. Develop tolerance towards other cultures
6. Create an alert mind and open attitude
7. Experience a rich community life
8. Open doors and expand horizons – employability benefits



Polisiau Cwricwlaidd Eraill

Other Curriculum Policies

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Relationship & Sexuality Education

Dylai fod gan bobl ifanc yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sy'n eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Mae hyn yn cynnwys dysgu am berthnasoedd iach, cadw'n ddiogel, ar-lein ac all-lein, a bod yn hyderus i godi materion gydag oedolion cyfrifol. Mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn rhoi manylion am yr hyn y mae'n rhaid ei addysgu a phryd. Rydym yn annog rhieni i ddarllen y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb cyhoeddedig sy'n rhoi eglurder ynghylch yr hyn y bydd eu plant yn ei ddysgu a phryd.

Young people should have the right to access information that keeps them safe from harm. This includes learning about healthy relationships, keeping safe, online and offline, and being confident to raise issues with responsible adults. The Relationships and Sexuality Education (RSE) Code provides details on what must be taught and when. We encourage parents to read the published RSE Code which provides clarity about what their children will learn and when.

Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd

Religious Education and collective worship

Nid oes cysylltiad rhwng yr ysgol ag unrhyw enwad crefyddol penodol. Darperir Addysg Grefyddol yn unol â maes llafur cytûn Conwy. Os ydych fel rhieni yn gwrthwynebu'n gydwybodol i'ch plentyn dderbyn gwersi neu fynychu gwasanaethau crefyddol, gellir gwneud trefniadau addas eraill.

The school has no religious affiliation and religious education is provided in accordance with the Conwy agreed syllabus. If a parent objects to their child receiving religious instruction or attending the morning assembly on conscientious grounds, other suitable arrangements can be made.

Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Developing Cross-curricular Skills

Bydd disgyblion yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddatblygu eu sgiliau trawsgwricwlaidd:

- Llythrennedd
- Rhifedd a
- Cymwyseddau Digidol a sgiliau TGCh.

Yng CA4 a CA5 datblygir y sgiliau hyn ochr yn ochr â her sgiliau y Fagloriaeth Cymreig.

Pupils will have opportunities across the curriculum to develop the cross-curricular skills of:

- Literacy
- Numeracy and
- Digital Competence and ICT.

At KS4 and KS5 these skills will be developed alongside the Welsh Bacalaureate skills challenges.



Addysg Gyrfaoedd a Byd Gwaith

Careers Education and the World of Work

Sut caiff fy mhlentyn ddysgu am fyd gwaith a chael arweiniad gyrfaoel?

How will my child learn about the world of work and receive careers

Mae gennym raglen gyrfaoedd a byd gwaith cryf yma'n Ysgol Dyffryn Conwy, gyda'r bwriad o ddatblygu sgiliau, agweddau a medrau fydd yn galluogi'r disgyblion i ymgymryd ag amrywiaeth o swyddi a sefyllfaoedd fel oedolion. Manteisir ar bob cyfle sydd yn codi o fewn gwersi a chyfnodau tiwtorial i gyfeirio at fyd gwaith a dealltwriaeth economaidd.

O Flwyddyn 9 ymlaen, rhoddir mwy o sylw i hyn a daw Gyrfaoedd a Byd Gwaith yn rhan o'r cwricwlwm wrth i'r disgyblion baratoi at ddewis eu pynciau. Yn unol â Llwybrau Dysgu 14-19 sicrheir y bydd pob plentyn yn derbyn cymorth ac arweiniad diduedd. Yn ogystal â darparu Llwybr Dysgu Unigol. Mae holl ddisgyblion Blwyddyn 9 yn defnyddio gwefan Gyrfa Cymru ar-lein i gael y cymorth gorau posib iddynt hwy a'u rhieni.

Mewn Partneriaeth efo Gyrfa Cymru rydym yn trefnu cyfweiliadau unigol i ddisgyblion fel rhan o arlwy cyfoethog ar gyfer addysg gyrfaoedd a byd gwaith. Mae cynghorydd Gyrfa Cymru yn ymweld yn rheolaidd â'r ysgol ac yn cyfweled y disgyblion hynaf yn unigol. Maent hefyd yn cynnal gweithgareddau efo grwpiau o ddisgyblion ac yn trefnu cynadleddau gyrfaoedd yn achlysurol yn yr ardal ar gyfer disgyblion a'u rhieni. Bydd cynrychiolydd o Gyrfa Cymru ar gael ar gyfer Nosweithiau Rhieni BL9-13.

We have an effective careers and world of work programme here at Ysgol Dyffryn Conwy; our main aim is to develop the skills, attitude and abilities that will enable the pupils to assume a variety of jobs and situations in adulthood. We take advantage of every opportunity to refer to the world of work and the economic situation during lessons and tutorial periods.

From Year 9 onwards, there is an increased focus on this and careers and the world of work is part of the curriculum as the pupils decide which subjects they will study. The school, in compliance with the 14-19 Learning Pathways, ensures that every pupil is given unbiased guidance and assistance. We also provide each pupil with an individual learning pathway. All Year 9 pupils use the Careers Wales website to ensure that they have the best possible assistance for pupils and parents.

In partnership with Gyrfa Cymru we arrange individual interviews for pupils as part of a rich provision for careers education and the world of work. The Careers Wales advisor visit the school regularly and gives the older pupils individual careers interviews. The company also arranges activities with groups of pupils and careers conferences in the area for the pupils and their parents. A representative from Careers Wales will be available during Years 9-13 parents' evenings.

Beth ydy llwybr dysgu unigol?

What is an individual learning pathway?

Mae dysgwyr yn:

- dewis opsiynau addas ar gyfer eu diddordebau, eu gallu a'u harddulliau dysgu
- dewis opsiynau a fydd yn rhoi cyfleoedd iddynt gyflawni eu potensial
- cael cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau ar gyfer bywyd a gwaith
- cael mynediad i gyfleoedd cymwysedig neu gyffredinol.

Learners:

- choose suitable options, based on their interests, ability and style of learning
- choose options that will give them the opportunities to reach their potential
- will be given opportunities to develop skills for life and work
- will have access to qualified or general opportunities.

Sut mae'r ysgol yn paratoi disgyblion ar gyfer y byd tu hwnt i'r ysgol?

Rydym yn falch iawn o lwyddiannau ein disgyblion ar ddiwedd pob cyfnod allweddol. Mae ein safonau yn gyson uchel yn genedlaethol ac yn lleol. Mae llawer o'n disgyblion yn dychwelyd i astudio yn y 6ed dosbarth yn dilyn eu cyrsiau TGAU. I eraill maent yn llwyddo i ddilyn cyrsiau amrywiol ac arbenigol mewn colegau addysg bellach yn lleol a thu hwnt. Prin iawn yw'r disgyblion sydd ddim yn bwrw ymlaen i astudio neu i fyd gwaith yn dilyn eu cyrsiau TGAU.

Yn flynyddol mae disgyblion 6ed dosbarth yn gadael yr ysgol i astudio mewn amrywiaeth o brifysgolion yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys disgyblion sydd yn mynd ymlaen i astudio cyrsiau Meddygaeth, Peirianneg, Ieithoedd, Y Gyfraith mewn prifysgolion grŵp Russell gan gynnwys Caergrawnt a Rhydychen. Mae eraill yn elwa o'u profiadau 6ed dosbarth ac yn symud ymlaen i gyflogaeth, prentisiaeth ac astudiaeth bellach yn lleol.

How does the school prepare learners for the world beyond school?

We are extremely proud of the success of our learners at the end of each key stage. Our standards are continuously high in comparison with both local and national data. Many of our learners return to study in our 6th form following their GCSE courses. Others go on to study in local colleges and other specialist colleges nationally. The learners who don't continue in education or move on to work or apprenticeship are very low.

Annually, our 6th formers leave school to study in a range of universities, both in Wales and in the rest of the UK. This includes learners who go on to study Medicine, Engineering, Languages and Law in Russell group universities including Oxford and Cambridge. Others move on to employment, apprenticeship and further study within the local area.



Llwyddiant Academaidd

Academic Success



Am wybodaeth am berfformiad cyfredol yr ysgol:

- Cliciwch ar y ddolen ysgol ar gyfer safwe data Llywodraeth Cymru 'Fy Ysgol Leol': <http://mylocalschool.wales.gov.uk/School/6624035?lang=cy>. Diweddair y wybodaeth ar ddiwedd Ionawr yn flynyddol.
- Cysylltwch â'r ysgol i ofyn am gopi o Adroddiad Blynnyddol y Llywodraethwyr i Rieni.
- Ewch ar ein safwe neu gyfrif Facebook, Instagram, Trydar i ddarganfod mwy am lwyddiannau disgyblion a'u cyflawniad: www.ysgodyffrynconwy.org / @ysgodyffrynconwy.

For information about the school's current performance:

- Click on the following link for the school's data on Welsh Government's 'My Local School': <http://mylocalschool.wales.gov.uk/School/6624035?lang=en>. The information is updated annually at the end of January.
- Contact the school to ask for a copy of the Annual Governors' Report to Parents.
- Visit our website and Facebook, Instagram, Twitter pages to find out about pupil success stories and achievements: www.ysgodyffrynconwy.org / @ysgodyffrynconwy.

Gwybodaeth Bellach

Gallwch ddarganfod mwy am yr hyn sydd gan yr ysgol i'w gynnig ar gyfer Blwyddyn 7, Cyfnod Allweddol 4 a TGAU, a Cyrsiau 6ed Dosbarth, drwy ymweld â'n tudalen Prospectws ar ein safwe, neu drwy gysylltu yn uniongyrchol â'r ysgol: <http://ysgodyffrynconwy.org/llawlyfrynau.html>

Further Information

You can gain further information about what the school has to offer for Year 7, Key Stage 4 and GCSES, and 6th Form Study through the Prospectus Pages on our Website or through requesting copies from the school reception: <http://ysgodyffrynconwy.org/eng/handbook.html>

Cefnogaeth Bugeiliol - Gofal a Lles

Mae gennym ofal bugeiliol rhagorol gyda tîm o Diwtoriaid a Phenaethiaid Cynnydd yn gofalu am bob blwyddyn. Mae Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol gan yr ysgol sydd yn monitro cynnydd a chefnogi lles disgyblion ADY yr ysgol. Mae Pennaeth Cynorthwyol sydd a chyfrifoldeb dros gynnydd a lles holl disgyblion yr ysgol. Ategir eu cefnogaeth gan bartneriaethau agos gyda nifer o asiantaethau allanol a phartneriaid gan gynnwys gwasanaethau iechyd drwy ein nyrs ysgol, gwasanaeth cwnsela Conwy, gwasanaeth CAMHS, Swyddog Heddlu yr ysgol, tîm TRAC Conwy, a hefyd tîm anogwyr dysgu yr ysgol a cwnselydd ysgol benodol.

‘Mae Lles disgyblion yn agwedd gref o fywyd Ysgol Dyffryn Conwy’.

Tîm Bugeiliol yr Ysgol:

Pennaeth Cynorthwyol Cynnydd a Lles Disgyblion, Swyddog Amddiffyn Plant a Swyddog Gwrth-Fwllo / Assistant Head for Pupil Progress and Wellbeing, Child Protection Officer and Anti-Bullying Co-ordinator	Mr Jason Turner
Pennaeth Cynnydd Blwyddyn 7 / Year 7 Progress Leader	Mrs Leah Jones
Pennaeth Cynnydd Blwyddyn 8 a 9 / Year 8 and 9 Progress Leader	Mrs Elin Jones
Pennaeth Cynnydd Blwyddyn 10 ac 11 / Year 10 and 11 Progress Leader	Mrs Catrin Rowlands
Pennaeth Cynnydd Blwyddyn 12 a 13 a Dirprwy Swyddog Amddiffyn Plant / Year 12 and 13 Progress Leader and Deputy Child Protection Officer	Mrs Elliw Davies
Cydlynnydd Anghenion Dysgu Penodol, Swyddog Plant mewn Gofal / Additional Learning Needs Co-ordinator (ALNCO), Looked after Children Officer	Mrs Rhian Evans
Swyddog Cefnogi y Tîm Bugeiliol / Pastoral Team Support Officer	Mrs Eleri Allsup
Swyddog Cefnogi ADY / ALN Support Officer	Mrs Lynne Roberts
Mentor 6ed Dosbarth / 6th Form Mentor	Mrs Iona Owen

“Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn ysgol ofalgar a chyfeillgar.” [ESTYN]

Pastoral Care - Wellbeing

We have a dedicated pastoral team which includes a team of Tutors and Progress Leaders for each year group. Our ALNCO monitors the progress and wellbeing of our ALN learners. An Assistant Head is responsible within the Senior Management team for the progress and wellbeing of all our pupils. Their work is supported through a network of partnerships with external agencies including with the local health board through our school nurse, Conwy’s School Based Counsellors, CAMHS, the school Police Liaison Officer, Conwy’s TRAC team, and an internal team of learning coaches and our own school based counsellor.

“Pupils’ wellbeing is a strong aspect of life at Ysgol Dyffryn Conwy”

The School’s Pastoral Team:

“Ysgol Dyffryn Conwy is a caring and friendly school”. [ESTYN]

Polisi Cydraddoldeb a Polisi ADY

Nod yr ysgol ydy sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i gyrraedd eu potensial. Sylfaen hyn fydd sicrhau bod pob plentyn yn cael eu trin yn gyfartal, a bod Ysgol Dyffryn Conwy yn darparu’r addysg orau i bob disgybl yn ddiwahân. Ni fydd gwahaniaethu o gwbl ar sail rhyw, anabledd, cefndir, hil na thras. Os cyfyd unrhyw gwestiwn ynglŷn â chyfle cyfartal dylid cysylltu â’r Pennaeth neu Gadair y Corff Llywodraethu.

Mae gan fy mhlentyn rai problemau dysgu; a fydd yn cael cymorth?

Mae sawl math o gymorth ar gael i ddisgyblion yn dibynnu ar eu hanghenion. Cefnogir rhai disgyblion yn eu dosbarthiadau gan gmorthyddion dysgu, sydd yn cefnogi unigolion neu grwpiau bach o ddisgyblion. Rhoddir cefnogaeth hefyd gan athrawon sydd yn arbenigo mewn anawsterau penodol megis dyslecsia, neu iaith a lleferydd. Mae gan yr ysgol uned arbennig ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymedrol. Mae llefydd yn yr uned yn cael eu dynodi gan yr Awdurdod Lleol.

Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn anelu at sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r ysgol yn gweithio’n agos gyda rhieni er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol i helpu’r disgybl. Rhoddir pwyslais ar farn y disgybl ac anelir at sicrhau ymateb ysgol gyfan i’w helpu ef/hi. Gwneir hyn trwy sicrhau bod cyfundrefn yn bodoli yn yr ysgol i adnabod disgyblion yn gynnar trwy greu cyswllt â’r ysgolion cynradd. Ar ôl cwblhau asesiad o anghenion y disgybl, byddwn yn ffurfio cynllun addysgol unigol fydd yn cwrdd â’i anghenion dysgu trwy ddarparu’r cymorth angenrheidiol.

Equalities and ALN Policies

The school’s aim is to ensure that everybody has the opportunity to reach their potential. The basis of this will be ensuring that each child is treated equally, and that Ysgol Dyffryn Conwy gives every pupil the best education, without exception. There will be no discrimination on the basis of sex, disability, background, religion or race. Any concerns regarding the implementation of this policy should be brought to the attention of the Head or the Chair of the Governing Body.

My child has some learning difficulties; will he/she receive support?

We offer various kinds of support for pupils, depending on their individual needs. Some of our pupils receive support in their classes from teaching assistants who support individuals or small groups of pupils. Support is also provided by teachers who specialise in specific learning difficulties such as dyslexia, or speech and language difficulties. The school has a designated resource base for learners who have moderate learning difficulties. Access to the resource base is designated by the Local Authority.

Additional Educational Needs Policy

Ysgol Dyffryn Conwy aims to ensure that pupils who have additional educational needs are given an equal curricular and social opportunity. The school works closely with parents to secure an effective partnership to help the pupil. There is an emphasis on the pupil’s opinion and we aim to ensure a whole school response to help him/her. This is achieved by ensuring that the school has a system in place to identify these pupils early by consulting with the primary schools. After completing an assessment of the pupil’s needs, we will put together an individual education plan to meet the pupil’s educational needs by providing the necessary assistance.

A oes bwlio yn yr ysgol?

Nid oes problemau bwlio mawr yn yr ysgol ond mae'n rhaid cadw golwg ar y sefyllfa'n barhaus. Mae'r ysgol yn cofnodi a gweithredu'n ddifrifol gyda phob achos o fwlio. Mae hyn yn wir am bob math o fwlio, gan gynnwys y broblem gynyddol o fwlio technolegol drwy'r we a ffonau symudol. Rydym yn ymfalchïo yn y gymuned glos a gwâr sydd yma yn Ysgol Dyffryn Conwy, ond os yw plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei fwlio, dylid dod â hyn i sylw athro ar unwaith fel y gellir ymateb yn syth i'r sefyllfa. Trwy gyd-weithio gallwn sicrhau na fydd bwlio yn broblem fawr yn Ysgol Dyffryn Conwy. Ceir copi o'n polisi gwrth fwlio yn adran diogel i rieni ein safwe.

Beth ydi trefn disgyblaeth yr ysgol?

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais mawr ar ymddygiad da, parch a chwrteisi. Gweithredir trefn disgyblaeth bendant ac mae canlyniadau i gamymddwyn. Mae pob athro yn gyfrifol am ymddygiad yn ei ddosbarth ei hun, ac fe gyfeirir disgyblion, yn ôl yr angen at y Pennaeth Cynnydd priodol, Y Pennaeth Cynorthwyl (cynnydd a lles disgyblion) ac aelodau eraill o'r Uwch Dim Rheoli, mewn achosion mwy difrifol. Fe fyddwn yn cysylltu â rhieni hefyd mewn achosion o gamymddwyn difrifol neu gyson, er mwyn i ni weithio gyda'n gilydd i ddatrys y broblem. Gall y Pennaeth atal unrhyw ddisgybl rhag mynychu'r ysgol am gyfnod byr o ganlyniad i gamymddwyn difrifol. Ystyri'r unrhyw waharddiad parhaol yn llawn gan y Corff Llywodraethu, ac mae trefn bendant i'r cyfarfodydd hyn, yn ogystal â gwaharddiadau penodol rhwng 5 a 15 diwrnod o hyd.



Is there bullying at the school?

